Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar y Bil Caffael

Chwefror 2023

Ar 7 Chwefror 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar gyfer y Bil Caffael ac i gyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd, ar gyfer y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn a rhai blaenorol sy'n ymwneud â'r Bil hwn, erbyn 13 Mawrth 2023.